


Scouts Cymru

# Gwobr Cennin Pedr

## PECYN BATHODYNNAU

Cadw

# Cyflwyniad

Helo bawb! **Jamie a Maddie o Dîm Ieuenctid ScoutsCymru** ydyn ni, ac mae cyflwyno Gwobr Cennin Pedr i chi'n gyffrous iawn – gwobr newydd sbon sy'n dathlu popeth sy'n gwneud diwylliant Cymru mor arbennig!

Mae'r bathodyn hwn yn helpu pobl ifanc i gysylltu ag **iaith, traddodiadau, straeon ac ysbryd Cymru** mewn ffyrdd hwyliog ac ymarferol. Boed yn dysgu ychydig o eiriau Cymraeg newydd, archwilio chwedlau lleol, blasu bwyd traddodiadol, neu ddarganfod y lleoedd anhygoel sy'n ffurfio ein cenedl – mae rhywbeth at ddant pawb.

Pleser yw creu partneriaeth â **Cadw** ar gyfer y bathodyn yma ac rydym ni'n gwerthfawrogi eu cyfraniad ariannol, a'u bod yn rhoi mynediad am ddim i'w henebion ar gyfer grwpiau sgowtio, i'w gefnogi.

Allwn ni ddim aros i weld **arweinwyr a gwirfoddolwyr** ledled Cymru yn dod â'r wobr hon yn fyw ac yn ysbrydoli pobl ifanc i deimlo'n falch o'n diwylliant a'n treftadaeth. Felly ewch amdani, byddwch yn greadigol, a dewch i ni ddathlu **beth mae'n ei olygu i fod yn rhan o Gymru** – gyda'n gilydd!

Diolch yn fawr, a **phob lwc** gyda Gwobr Cennin Pedr!




## Gofynion

# Squirrels

(4 i 6 oed)

Cwblhewch **4** o'r gofynion, rhaid gwneud o leiaf **1** o bob thema.



### Bwyd a Sgiliau

- Helpwch i wneud pice ar y maen neu fwyd traddodiadol arall a'i flasu.
- Aroglwch a chyffwrddwch â chynhwysion Cymreig (cenhinen, caws, ac ati).
- Addurnwch y neuadd a gosod byrddau ar gyfer gwledd Gymreig.




### Creadigrwydd a'r Celfyddydau

- Dysgwch gân Gymraeg a'i chanu gyda'ch gilydd.
- Lluniwch eich dehongliad chi o gerdd Gymraeg.
- Dyluniwch gastell Cymreig neu un dychmygol.



### Hanes a Hunaniaeth

- Darganfyddwch beth yw eisteddfod a pham ei bod hi'n arbennig i Gymru (Gallech wrando ar gerddoriaeth, edrych ar luniau, neu roi cynnig ar eisteddfod fach yn eich nyth!)
- Triwch ddillad traddodiadol Cymreig ymlaen a dysgu ffaith amdanyn nhw.
- Ewch i ymweld â un o safleoedd hanesyddol Cymreig Cadw* (gyda mynediad am ddim).
- Gwrandewch ar Addewid y Sgowtiaid yn y Gymraeg, dysgu rhai geiriau neu ymadroddion, neu ddysgu'r Addewid llawn (yn dibynnu ar eich gallu yn y Gymraeg).
- Gwrandewch ar stori am Dewi Sant.

## Gofynion

# BEAVERS

(6 i 8 oed)

Cwblhewch **6** o'r gofynion, rhaid gwneud o leiaf **1** o bob thema.





### Bwyd a Sgiliau

- Helpwch i wneud pice ar y maen neu fwyd traddodiadol Cymreig arall a'i flasu.
- Addurnwch gacennau bach neu fisgedi Dydd Gŵyl Dewi.

### Creadigrwydd a'r Celfyddydau

- Dysgwch gân Gymraeg a'i chanu gyda'ch gilydd.
- Lluniwch eich dehongliad chi o gerdd Gymraeg.
- Dyluniwch gastell Cymreig neu un dychmygol, meddyliwch beth sy'n gwneud castell da!



### Hanes a Hunaniaeth

- Darganfyddwch beth yw eisteddfod a pham ei bod hi'n arbennig i Gymru (Gallech wrando ar gerddoriaeth, edrych ar luniau, neu roi cynnig ar eisteddfod fach yn eich llwyth!)
- Trïwch ddillad traddodiadol Cymreig ymlaen a dysgu ffaith amdanyn nhw
- Ewch i ymweld â un o safleoedd hanesyddol Cymreig Cadw* (gyda mynediad am ddim).
- Gwrandewch ar Addewid y Sgowtiaid yn y Gymraeg, dysgu rhai geiriau neu ymadroddion, neu ddysgu'r Addewid llawn (yn dibynnu ar eich gallu yn y Gymraeg).
- Gwrandewch ar o leiaf ddwy stori am Dewi Sant.



## Gofynion

# cubs

(8 i 10.5 oed)

Cwblhewch **7** o’r gofynion, rhaid gwneud o leiaf **2** o bob thema.





### Bwyd a Sgiliau

- Helpwch i goginio pryd traddodiadol Cymreig ar dân agored (gyda help oedolyn!) a’i flasu
- Dysgwch am hanes llwyau caru a dylunio un eich hun
- Gwnewch Gawl, dysgu beth sy'n mynd i mewn iddo a’i flasu

### Creadigrwydd a’r Celfyddydau

- Dysgwch gân Gymraeg a'i chanu gyda'ch gilydd
- Lluniwch eich dehongliad chi o gerdd Gymraeg
- Dyluniwch gastell Cymreig neu un dychmygol



### Hanes a Hunaniaeth

- Gwrandewch ar straeon neu chwedlau am Dewi Sant a rhannu’r hyn rydych chi’n ei ddysgu gyda’ch Six
- Darganfyddwch beth yw eisteddfod a pham ei bod hi'n arbennig i Gymru - gallech wylio fideo, cymryd rhan mewn eisteddfod fach neu wrando ar gerddoriaeth neu farddoniaeth Gymraeg
- Trïwch ddillad traddodiadol Cymreig ymlaen a dysgu ffaith amdanyn nhw
- Ewch i ymweld â un o safleoedd hanesyddol Cymreig Cadw* (gyda mynediad am ddim)
- Gwrandewch ar Addewid y Sgowtiaid yn y Gymraeg, dysgu rhai geiriau neu ymadroddion, neu ddysgu'r Addewid llawn (yn dibynnu ar eich gallu yn y Gymraeg).



## Gofynion

# Scouts

(10.5 i 14 oed)

### Cwblhewch **8** o’r gofynion, rhaid gwneud o leiaf 2 o bob thema.









## Bwyd a Sgiliau

- Paratowch a choginiwch bryd traddodiadol Cymreig 3 chwrs ar dân agored.
- Cynlluniwch fwydlen Gymreig syml ar gyfer pryd gwersyll.
- Addaswch bryd traddodiadol ar gyfer llysieuwyr neu alergeddau.
- Gwnewch fideo byr yn esbonio sut i goginio pryd Cymreig.
- Dyluniwch a gwnewch lwy garu.

## Creadigrwydd a’r Celfyddydau

- Dysgwch ddawns werin.
- Lluniwch eich dehongliad chi o gerdd Gymraeg.
- Crëwch berfformiad (cerddoriaeth, drama, neu farddoniaeth) wedi'i ysbrydoli gan Gymru neu ei chwedlau.

## Hanes a Hunaniaeth

- Dysgwch am yr Eisteddfod Genedlaethol a sut mae wedi datblygu.
- Trïwch ddillad traddodiadol Cymreig ymlaen a dysgu ffaith amdanyn nhw.
- Ewch i ymweld â thri safle hanesyddol Cymru a chreu poster neu arddangosfa ddigidol amdanynt (mynediad am ddim gyda Cadw*).
- Dysgwch Addewid y Sgowtiaid yn y Gymraeg (gallech ei ddysgu'n llawn, ymarfer ymadroddion allweddol, neu helpu eraill yn dibynnu ar eich hyder yn y Gymraeg).
- Ymchwiliwch pwy oedd Dewi Sant a darllen tair stori amdano.
- Ymchwiliwch ystyr Anthem Genedlaethol Cymru, meddyliwch am yr hyn y mae'n ei olygu i chi fel unigolyn ac i eraill yng Nghymru. Gwnewch fwrdd stori o'r anthem.

# Gofynion

## EXPLORERS



(14 i 18 oed)

Cwblhewch **10** o'r gofynion, rhaid gwneud o leiaf 2 o bob thema a **2** weithgaredd Arwain.

### Bwyd a Sgiliau

- Paratowch a choginiwch bryd tri chwrs traddodiadol Cymreig ar dân agored.
- Ymchwiliwch i darddiad a hanes eich prydau Cymreig dewisol.
- Cymharwch draddodiadau bwyd Cymru â thraddodiadau bwyd gwlad arall (e.e., Eidalaidd, Indiaidd, ac ati).
- Dyluniwch a cherfiwch neu addurnwch eich llwy garu eich hun gydag ystyron symbolaidd.

### Creadigrwydd a'r Celfyddydau

- Dysgwch ddawns werin.
- Crëwch ddehongliad gweledol neu ddigidol o gerdd Gymraeg.
- Cystadlwch mewn eisteddfod - gallai hyn fod mewn cerddoriaeth, ysgrifennu, celf, neu berfformiad.
- Cynlluniwch a chynhaliwch eisteddfod fach ar gyfer adran iau (Squirrels i Scouts).

### Hanes a Hunaniaeth

- Dysgwch am yr Eisteddfod Genedlaethol a sut mae wedi datblygu dros amser – ystyriwch effeithiau diwylliannol a gwleidyddol.
- Trïwch ddillad traddodiadol Cymreig ymlaen a dysgu ffaith am eu cyd-destun hanesyddol neu ddiwylliannol.
- Ewch i ymweld â thri safle hanesyddol Cymru a chreu cyflwyniad amdanynt (mynediad am ddim gyda Cadw*).
- Dysgwch Addewid y Sgowtiaid yn y Gymraeg. Os ydych chi'n rhugl, helpwch eraill i ddysgu'r addewid neu archwilio ei ystyr.
- Ymchwiliwch ystyr Anthem Genedlaethol Cymru, meddyliwch am yr hyn mae'n ei olygu i chi fel unigolyn ac i eraill yng Nghymru.
- Gofynnwch i bobl o wledydd eraill beth maen nhw'n ei wybod am Gymru a rhannwch yr hyn rydych chi'n ei ddysgu, dysgwch ychydig o bethau iddyn nhw am Gymru hefyd.

### Arwain

- Cynlluniwch ac arweiniwch sesiwn Gwobr Cennin Pedr lawn ar gyfer eich Uned Explorer neu adran iau.
- Byddwch yn fentor i Sgowt iau sy'n gweithio ar y Wobr Cennin Pedr, gan gynnig anogaeth, arweiniad a chefnogaeth.
- Cynhaliwch gêm, cwis, neu weithgaredd creadigol am ddiwylliant Cymru ar gyfer eich grŵp neu ardal.
- Helpwch i gynllunio a chynnal eisteddfod ar gyfer eich grŵp neu ardal.
- Rhannwch eich profiad o ennill y bathodyn mewn blog, neges ar y cyfryngau cymdeithasol, neu gylchlythyr Sgowtiaid.








## Rhagor o Wybodaeth

Dolenni penodol i ardaloedd arbennig o'n gwefan

- Cadw Cymru Minecraft
- Dysgu Cymraeg gyda Cadw
- Celf, Crefftau a Chreadigrwydd
- Gwyliau a Thraddodiadau
- Arwyr ac Arwresau Cymru
- Gwarchodwr Treftadaeth
- a phecynnau Addysg (sy'n cynnwys pecyn cestyll) yn Adnoddau Addysg - i helpu i baratoi ar gyfer ymweliad.

Ffynonellau eraill o wybodaeth a delweddau allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer astudiaethau cysylltiedig:

- Casgliad y Werin Cymru
- Croeso Cymru
- Chwilio cofnodion Cadw
- Coflein
- Enwau Lleoedd Hanesyddol
- MapDataCymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Dolen i gyfryngau cymdeithasol Cadw

am y newyddion diweddaraf.

* Gweler **Dysgu | Cadw** am adnoddau i gefnogi'r bathodyn hwn – Ac **Ymweliadau Addysg** i gael gwybodaeth am gael mynediad at yr ymweliadau am ddim i safleoedd Cadw (nodwch y Telerau ac Amodau) a chofiwch dagio **@Cadwcymruwales** yn eich negeseuon cyfryngau cymdeithasol am unrhyw ymweliad â safle Cadw.

Cadw

Scouts Cymru

Arhoswch mewn cysylltiad
**admin@scoutscymru.org.uk**
**www.scoutscymru.org.uk**